

TCO : Awdur cynnwys dysgu – Graddfa 4

Adran: Yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth	
Cod y Rôl:	Teitl y Rôl: Awdur cynnwys dysgu
Yn atebol i: Pennaeth Adran	Cyfrifol am: Awduro cynnwys dysgu fel y cyfarwyddir gan y Pennaeth Adran.
Diben y rôl: Datblygu cynnwys dysgu ar bwnc arbenigol fel y cyfarwyddir gan y Pennaeth Adran a rheolwyr cynhyrchu	
Prif ddyletswyddau	
1. Ymgymryd â hyfforddiant priodol ar gyfer cynllunio a chyflwyno cynnwys dysgu i farchnadoedd dysgwyr amrywiol	
2. Cysylltu â staff perthnasol yr Adran e.e. arbenigwyr pwnc, rheolwyr cynhyrchu, golygyddion, y swyddog technoleg addysg, a'r swyddog hawlfraint.	
3. Creu, datblygu a diwygio cynnwys dysgu, gan dynnu ar eich arbenigedd proffesiynol ac ymchwil cyfredol, i ddiwallu'r cylch gwaith a'r amserlen fel y cyfarwyddir gan yr Adran.	
4. Cynllunio gweithgareddau, ymarferion ac adborth sy'n briodol i amcanion dysgu, cynnwys gwybodaeth a'r farchnad dysgwyr.	
5. Cynllunio asesiad cwrs sy'n briodol ar gyfer amcanion dysgu, cynnwys gwybodaeth a'r farchnad dysgwyr	
6. Cynllunio eich gwaith eich hun i fodloni cylch gwaith y cynnwys a'r amserlen a bennir gan yr Adran	
Gweithgareddau	Enghreiffiau o ofynion y rôl
1 Cyfathrebu	Defnyddio egwyddorion cynllunio cyfarwyddol i ddatblygu cynnwys dysgu i gyfleu cysyniadau proffesiynol, trafodaethau, ymchwil, gweithdrefnau a systemau ar gyfer amrywiaeth o ddysgwyr. Cyfathrebu deunydd drafft ar gyfer cynllunio cychwynnol, ac ysgrifennu yn ôl y cylch gwaith a phrosesau cynhyrchu e.e. golygu. Cyfleu gwybodaeth gymhleth ar lafar a thrwy destun ar gyfer amrywiol ddulliau cyflwyno gan gynnwys dysgu ar-lein.
2 Gwaith Tîm a Chymhelliant	Perthynas waith dda gyda thîm Dysgu Agored yr Adran (e.e. rheolwyr, golygyddion, swyddog technoleg addysgol, swyddog hawlfraint) Mynychu a chyfrannu mewn cyfarfodydd perthnasol. Lle bo'n berthnasol, cyfranogi fel aelod o dîm addysgu'r Adran.

3 Cyswllt a Rhwydweithio	Cysylltu â Thîm Dysgu Agored yr Adran a staff perthnasol eraill i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i bobl yn amserol. Defnyddio rhwydweithiau proffesiynol i sicrhau bod cynnwys dysgu yn briodol ac yn berthnasol i fyfyrwyr ar raglenni sydd wedi'u hachredu'n broffesiynol.
4 Darparu Gwasanaeth	Datblygu cynnwys dysgu fel y cyfarwyddir gan yr Adran ac yn unol ag arddull y tŷ a'r fformat a ragnodir. Dilyn ymarfer cynllunio cyfarwyddol priodol, fel y cyfarwyddir gan yr Adran, i ddiwallu anghenion y dull cyflenwi a'r farchnad dysgwyr. Diwallu gofynion golygu llawn fel y cyfarwyddir gan reolwyr cynhyrchu, yn unol â'r cylch gwaith ac amserlen cynhyrchu.
5 Prosesau a Chanlyniadau Penderfynu	Cynllunio eich gwaith eich hun i fodloni'r cylch gwaith cynnwys a'r amserlen a bennir gan yr Adran.
6 Cynllunio a Threfnu Adnoddau	Cynllunio eich gweithgaredd dydd i ddydd eich hun o fewn fframwaith y cylch gwaith a'r amserlen a gytunwyd. Cydlynu eich gwaith eich hun â gwaith pobl eraill i osgoi gwrthdaro neu ddyblygu ymdrechion
7 Menter a Datrys Problemau	Ymdrin â phroblemau a allai effeithio ar gyflenwi eich gwaith ysgrifennu
8 Dadansoddi ac Ymchwil	Cynnal chwiliadau llenyddiaeth a chronfeydd data i ddatblygu cynnwys dysgu ac archwilio technegau addysgu.
9 Gofynion Synhwyrdd a Chorfforol	Gall gofynion synhwyrdd a chorfforol amrywio o gymharol ysgafn i lefel uchel gan ddibynnu ar y ddisgyblaeth a'r math o waith a wneir.
10 Amgylchedd Gwaith	Rhaid bod yn ymwybodol o'r risgiau yn yr amgylchedd gwaith.
11 Gofal a Lles Bugeiliol	Dangos ystyriaeth i bobl eraill.
12 Datblygu Tîm	Gweithio fel rhan o dîm yr Adran, cefnogi cydweithwyr a rhannu gwybodaeth o fewn tîm yr Adran.
13 Cefnogaeth Addysgu a Dysgu	Cynllunio cynnwys dysgu o fewn rhaglen a fframwaith sefydledig clir yr Adran, gyda chymorth a chefnogaeth, i gyd-fynd ag anghenion cyflenwi gwasanaeth a marchnadoedd dysgwyr. Datblygu cynnwys dysgu, gyda chymorth a chefnogaeth gan dîm Dysgu Agored yr Adran e.e. golygyddion cynhyrchu. Cynllunio gweithgareddau, ymarferion ac adborth sy'n briodol i'r amcanion dysgu, cynnwys gwybodaeth a'r farchnad dysgwyr. Ambell waith cynllunio asesiadau cwrs sy'n briodol i'r amcanion dysgu, cynnwys gwybodaeth a'r farchnad dysgwyr.
14 Gwybodaeth a Phrofiad	Adfyfrio ar ymarfer a datblygu eich sgiliau addysgu a dysgu eich hun. Meddu ar ehangder neu ddyfnder digonol o wybodaeth arbenigol yn y ddisgyblaeth a dulliau a thechnegau addysgu i weithio o fewn eich maes eich hun.

Unrhyw weithgareddau sylweddol eraill ar wahân i'r rhai uchod?

Mae'r Adran yn cynllunio ac yn cyflenwi amrywiaeth o gyrsiau a rhaglenni sydd wedi'u hachredu gan gyrff a sefydliadau proffesiynol allanol. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i awduron cynnwys dysgu wneud y canlynol:

- arloesi yn eu maes proffesiynol arbenigol
- tynnu ar eu harbenigedd a'u rhwydweithio proffesiynol
- rhannu eu gwybodaeth a'u profiad drwy awduro cynnwys dysgu, yn dilyn cyfarwyddyd yr Adran, gyda'r cynnyrch terfynol yn cael ei ddefnyddio a'i addasu gan yr Adran fel y gwêl yn briodol ar gyfer amrywiol ddulliau cyflwyno a marchnadoedd dysgwyr.